



Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd

Hunaniaeth a manylion cyswllt y Rheolydd Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolydd Data ac mae'n ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (*GDPR*).

Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu ag e trwy dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

Pa wybodaeth rydym ni'n ei chasglu amdanoch chi?

Mae'r datganiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn casglu ac yn defnyddio'ch manylion personol at ddibenion cynnig ein gwasanaeth rhybuddio am lifogydd i chi, gan gynnwys y Llinell Rybuddion Llifogydd (*Floodline*).

Rydym yn darparu rhybuddion llifogydd i 2 grŵp o gwsmeriaid.

Grŵp 1: Pobl sydd wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd

Er mwyn anfon rhybuddion am lifogydd i'n cwsmeriaid a darparu'r gwasanaeth Llinell Rybuddion Llifogydd, rydym yn casglu peth neu'r cyfan o'r wybodaeth ganlynol

- Enw
- Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (post ac e-bost)
- Cyfeiriad yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd
- Enw eich Busnes / Sefydliad a Theitl eich Swydd
- Rhif Ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Cyfrinair
- Ateb i gwestiwn diogelwch
- Dewisiadau iaith: Cymraeg neu Saesneg
- Hanes llifogydd
- Mae pob cwsmer hefyd yn cael rhif cyfrif unigryw ar gyfer y gwasanaeth

I bobl yn y grŵp hwn, cawsom ganiatâd i gasglu a phrosesu eu manylion pan wnaethon nhw gofrestru i dderbyn y gwasanaeth rhybuddion llifogydd. Gallwch ganslo'ch cofrestrriad ar unrhyw adeg, ac ar ôl hynny byddwn yn storio'ch manylion am 6 blynedd.

Mae'n bwysig ein bod yn cadw'ch gwybodaeth am 6 blynedd ar ôl i chi ganslo oherwydd bod y cofnodion hyn yn ein galluogi i'ch arbed rhag cael eich ail-ychwanegu'n awtomatig i'r system drwy'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib (gweler isod). Os byddwch yn dymuno i'ch manylion gael eu tynnu oddi yno'n llwyr, gall hyn beri i chi gael eich ychwanegu'n awtomatig unwaith eto. Mae cadw'r data hwn hefyd yn bwysig i'n galluogi i wneud dadansoddiad ôl-ddigwyddiad sydd, yn ei dro, yn ein galluogi i wella ein gwasanaeth.

Grŵp 2: Eiddo lle nad oes neb wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth rhybuddion llifogydd

Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 yn ein galluogi i weithio gyda darparwyr gwasanaethau ffôn er mwyn cael rhifau ffôn ar gyfer eiddo lle nad oes cwsmer i'r gwasanaeth rhybudd llifogydd. Os oes gan y darparwr gwasanaeth ffôn gwsmer yn y cyfeiriad, rhoddir y rhif ffôn i ni. Gallwn wedyn anfon rhybuddion llifogydd i'r rhif hwnnw trwy alwad ffôn neu neges *sms* (testun). Yn achos yr eiddo hwn, rydym yn casglu ac yn storio'r wybodaeth ganlynol yn ddiogel:

- Cyfeiriad yr eiddo sydd mewn perygl
- Rhif Ffôn

Sut fydd eich manylion yn cael ei ddefnyddio?

Rydym yn defnyddio'ch data i

- anfon negeseuon rhybuddio am lifogydd i chi sy'n eich galluogi i weithredu er mwyn lleihau effaith llifogydd arnoch chi eich hun, pobl yn eich gofal ac i'ch eiddo
- cysylltu â chi gyda nifer fach o gyhoeddiadau gwasanaeth neu negeseuon gweinyddol ynglŷn â'n gwasanaeth
- helpu gyda'n gwaith ar rybudd llifogydd a rheoli risg llifogydd
- ymateb i gwynion/ymholiadau
- gall rhai o'ch data gael eu rhannu gyda'r gwasanaethau brys ac awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i ymateb i lifogydd

Efallai y byddwn yn rhoi eich manylion i'n hasiantau neu gynrychiolwyr (y Llinell Rybuddion Llifogydd), er mwyn iddyn nhw allu gwneud unrhyw un o'r pethau hyn ar ein rhan.

Beth yw ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu'r gwasanaeth rhybuddio am lifogydd dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Mae hyn yn galw am gasglu'ch data fel y gallwn anfon rhybuddion llifogydd i chi.

Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru

- "... rhannu gwybodaeth gydag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella cydlyniad
- cydweithredu gydag ymatebwyr lleol eraill er mwyn gwella cydlynu ac effeithlonrwydd"

Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio systemau a reolir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Gallwch weld sut maen nhw'n trin eich gwybodaeth bersonol yn: www.gov.uk/government/organisations/environment-agency/about/personal-information-charter

Bydd gan weithredwyr galwadau sy'n darparu ein gwasanaeth Llinell Rybuddion Llifogydd fynediad hefyd at eich gwybodaeth er mwyn iddyn nhw allu eich helpu os bydd angen.

Unrhyw drosglwyddiadau i drydedd wlad a'r mesurau diogelu sydd ar waith

Ni throsglwyddir unrhyw ddata y tu allan i'r UE.

Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?

Os caiff eich cofrestrriad ar gyfer rhybuddion bwyd ei ganslo am unrhyw reswm, caiff eich data ei storio am 6 blynedd i'ch arbed rhag cael eich ail-ychwanegu'n awtomatig i'r gwasanaeth ac i ganiatáu cyfle i ni i gynnal dadansoddiad yn dilyn llifogydd.

Beth yw hawliau'r unigolyn?

Mae gennych hawl i gael mynediad i'ch gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i unioni, dileu, cyfyngu a phorthio'ch gwybodaeth bersonol. Ewch i'n tudalennau gwe Diogelu Data am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau. Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data CNC: -

E-bost – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Heol Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

Diogelwch eich gwybodaeth

Bydd eich data yn cael ei storio mewn systemau cyfrifiadurol diogel sy'n cael eu gweithredu ar ein rhan gan Fujitsu UK Ltd. mewn canolfannau data yn y DU. Caiff mynediad i'r systemau hyn ei reoli'n ofalus ac mae unrhyw fynediad yn gyfyngedig i weithwyr hyfforddedig CNC a'n hasiantau (Linell Rybuddion Llifogydd) yn unig. Gan fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoli'r gwasanaeth, bydd ganddyn nhw yr un mynediad i'ch gwybodaeth â gweithwyr CNC.

Sut i wneud cwyn

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich data personol wedi'i brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data CNC yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau yn anfodlon, yna mae gennych yr hawl i gyflwyno cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF

www.ico.org.uk